YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

Rhifyn Coffa
i'r diweddar
Barch. E. R. DENNIS.

Cyf. xlix

Medi, 1949

Rhif 9

YR YMOFYNNYDD

Pris 6c. y mis; drwy y Post, 7s. oc. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—

Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A., Penrallt, 2, Tudor Terrace, Aberdâr.

Nodion a Marwgofion i gyrraedd y Golygydd erbyn y 15eg o'r mis.

Pwyllgor Ymgynghori—PRIFATHRO J. D. JONES, B.A., B.D.; PARCHN. S. E. BOWEN; E. R. DENNIS; D. EVANS; E. G. EVANS, B.A.; E. O. JENKINS; J. ISLAN JONES, M.A.; SIMON JONES, B.A.; A. J. MARTIN, B.A.; J. MARLES THOMAS, M.A.; LEWIS WILLIAMS; T. O. WILLIAMS, M.A.; a'r DR. D. J. DAVIES, Mr. W. S. JONES, M.A., M.Sc., a Mr. D. JONES.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr—

J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd", Llandysul

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha).
Selected and edited by MORTIMER ROWE, B.A., D.D. The best of the Bible and Apocrypha, in attractive and readable form. 9/6, by post, 10/3; leather with gilt edges, 18/-, by post 18/9.

SHALL WE FOLLOW KARL BARTH.
By SIDNEY SPENCER, B.A. 1/6, by post 1/8.

THE STORY AND SIGNIFICANCE OF THE UNITARIAN MOVEMENT.
By W. G. TARRANT, B.A. 1/6, by post 1/8.

UNITARIAN FAITH IN UNITARIAN HYMNS.
1/-, by post 1/2.

WE BELIEVE IN series.
Edited by G. STEPHENS SPINKS, M.A., PH.D., the set of six titles, 1/6 by post 1/8.

Send for catalogue and lists of other series—

THE LINDSEY PRESS,
14, Gordon Square, London, W.C.1.

YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL XLIX. MEDI, 1949. RHIF 9.

1882 Y diweddar Barch. E. R. DENNIS 1949

DENNIS—

Y Gweinidog, y Ffrind a'r Cynhyrchydd.

MEWN ATGOF.

Gan T.O.W.

DENNIS eto wedi mynd! O feddwl am ei golli dechreuais feddwl am y brodyr a gofiwn a oedd wedi blaenu: R.J.J.; Cribin Jones; John Davies; T.T.; William James; Enoc a James Jenkins; Ceiron Jones; Park Davies; Arthur Thomas; Gruffydd Jones ac eraill hwyrach, ac yn awr wele Dennis wedi'u dilyn. Ni chlywais neb yn ei alw yn ddim ond Dennis, ac yr oedd rhyw anwyldeb yn nhôn y llais bob tro. O weld aelodau'r Hen Dŷ Cwrdd yn eu dagrau o'i golli deellais ddyfned yr oedd wedi gwreiddio yng nghalon ei gynulleidfa, ond dylasem gofio ei fod yma bron pedair ar ddeg ar hugain o flynyddoedd—tafell dda o fywyd dyn.

O droi adref ar ddydd ei angladd daeth paragraff i'm cof,—

> "The minister is to be a live man, a real man, a true man, a simple man, great in his love, great in his life, great in his work, great in his simplicity, great in his gentleness . . ."

Dyna ddarlun o'r pregethwr delfrydol. Ni ddwedaf ei fod ef mwy na minnau yn llanw'r darlun, ond credaf y buasem ill dau yn meddwl ddwywaith cyn mynd i'r weinidogaeth pe baem yn gwybod a ddisgwylid oddiwrthym. Anodd cofio pryd y gwelsom rywun y tro cyntaf. Nid yw'n bwysig oherwydd cydio'n dynnach y mae ffrind gwir bob cynnig. Y mae llythyr dyddiedig Mehefin 2, 1915 yn llawysgrif glir Gwilym Griffiths, ysgrifennydd yr Hen Dŷ Cwrdd ar y pryd, o'm blaen yr awron, yn estyn galwad imi ddod yno'n weinidog yn llanc ieuanc dibrofiad. Yr oedd yr Hen Dŷ Cwrdd yn fodlon mentro rhagor na llawer eglwys. Wn i yn y byd a fuasai Eglwys yr Hen Dŷ Cwrdd yn fodlon newid y dyddiad a gadael i'r alwad sefyll. Ni chydsyniais a'r alwad. Paham, ni wn. Pe bawn wedi'i derbyn ni chawsai Dennis ei gyfle yn Aberdâr, o leiaf. Ni ŵyr dyn mo'i dynged. Dyna wahanol a fuasai ei lwybr ef a minnau pe bawn wedi gwneud. Er imi ei gwrthod yr adeg honno, ac yn rhy hen i gael ei chynnig weithian, y mae lle cynnes yn fy nghalon hyd heddiw i hen eglwys yr Hen Dŷ Cwrdd.

Dyma'r pryd y croesodd ei lwybr ef a minnau ei gilydd y tro cyntaf. Yn fuan wedyn yr oedd cyrddau arbennig yn y Cwm, a minnau wedi gwahodd Dennis i bregethu, ac yntau yno ar ei orau.

Droeon buom yn cydbregethu yn Nhrebanos a mannau eraill. Y mae dyddiau'r cyd-bregethu drosodd mwy. Tua'r adeg hon hefyd teimlai awydd arno i loewi'i Gymraeg, a cheisiais hyd y gallwn ei helpu. Ni wn faint o help a fûm iddo ond daeth y gwersi ag ef a minnau yn agos iawn at ein gilydd. Ni bûm yn un o etholedigion Llangranog erioed. Ni chefais yr anrhydedd na'r fraint o fod yng nghwmni Jenkins, Tudor James a Dennis yno, ond yr oedd Llangranog yng ngwaed Dennis ac yno y gwasgarwyd ei lwch i'r pedwar gwynt. Wn i yn y byd ar bwy y syrth y coelbren pan lenwir y cylch cyfrin maes o law.

Gŵr o daldra cyffredin oedd Dennis, bywiog ei osgo, a'i ddau lygad mawr yn edrych trwoch. Parablai'n gyflym yn y pulpud ac nid oedd yn debig i neb yno. Siaradai'i fys a'i ddwylo gyfrolau a gwelid ei galon fawr garedig yn byrlymu yn ei eiriau. Dyna Dennis, a hawdd oedd bod yn ffrind iddo, ac yntau yn llawn hiwmor iach.

Gŵr gwylaidd ydoedd. Cofiaf amdano'n cydbregethu â mi yn Nhrebanos, a'r capel yn orlawn fel y byddai slawer dydd ar gyrddau mawr, ond nid oedd Dennis yn gartrefol. Dwedai na charai dorf fawr. Gwell oedd ganddo draethu'i neges yn ei ffordd gartrefol ei hun i'r gynulleidfa arferol, a chredaf fod yn well ganddo bregethu o bulpud yr Hen Dŷ Cwrdd nag unman.

Nid wyf yn ei feio, ond ni chytunem yn hyn. Gwell gennyf i y dorf fawr ond ar fore Sul yng Nghaeronnen. Credaf mai Jenkins y Llwyn a ddywedai ei fod ym mhob pregeth yn pwysleisio ei ffydd yn Nuw. Y mae naws ambell bregeth yn wahanol ond ni chredaf y medr neb bregethu heb ffydd yn Nuw. Yr oedd Dennis a rhyw nodyn gwahanol ganddo i'r mwyafrif ohonom yn ei bregeth. Yr oedd rhyw newydddeb a ffresni—rhywbeth byw ganddo bob amser a chofiaf am lawer pregeth a'm codai i'r uchelfannau. Ni waeddai yn y pulpud. Y mae oes y gweiddi'n diflannu ond fe barablai'n gyflym a dwedais wrtho rywdro ei fod fel machine gun. Saethai'r geiriau o'i enau fel bwledi. Yr oedd wedi arafu'n ddiweddar—y llais yn pallu ond daliai ati, a digon o ysbryd ynddo i arwain y Gymanfa Ganu yn Nhrebanos y Pasg diwethaf. Chware teg iddo—yr ysbryd yn barod ond y corff yn wan.

Dywedai'r ên grynedig a deigryn gloyw y siaradwyr ar ddydd ei angladd anwyled ffrind ydoedd a theimlwn wrth wrando dau o'r Hen Dŷ Cwrdd ei fod yn weinidog da i Iesu Grist. Cadwodd ei eglwys yn gryno a chyfan ar hyd y blynyddoedd ond y drwg amdani y mae eglwys yr Hen Dŷ Cwrdd fel Caeronnen a gormod o waith claddu i weinidog ynddi. Gormod o gladdu a welodd Dennis yn Aberdar a chlwyf i galon gweinidog yw claddu'r hen ffyddloniaid a neb yn dod i lanw eu lle. Y mae rhywbeth yn drist mewn eglwys grin—eglwys heb do ifanc yn codi oherwydd yr ifanc yw gobaith pob eglwys. Nid oes nemor o rai ifainc yn yr Hen Dŷ Cwrdd. Y mae'r enw yn gweddu yn rhy dda iddi yn hyn o beth,

Yr oedd Dennis yn ysbrydegwr argyhoeddedig a hwyrach y nawseiddiai'i gred ei bregeth yn aml. Yr oedd byd yr ysbryd yn agos ato. Ni wthiai'i gred i bob pregeth ond fel y diweddar Gribin Jones yr oedd ei gred yn ansigledig yn y *future life*. Nid oes hawl gan neb amau cred dyn. Yr unig beth a fedrwn ddweud yw na chawsom ni'r weledigaeth. Hwyrach y carasai llawer un ohonom ei chael ond er nas cawsom dywedwn yn bendant ddigon,—

Hawdd fydd nabod hen wynebau
Wedi croesi niwl y glyn.

Ni wn i ddim am ei ddiddordeb ym mywyd cyhoeddus ei dre ond gwn am ei ddiddordeb ym myd y ddrama, a Pharti Dennis yn cipio prif wobrau ei genedl. Ef oedd y Cynhyrchydd ac er bod eraill wedi cael mwy o enw a bri nid oedd Dennis yn ail i neb am lwyfannu drama, ac erys y Little Theatre fel cofadail iddo yn Aberdar. Y mae'r llen wedi disgyn am y tro olaf. Y mae'r llwyfan yn wag, a minnau'n cofio am lawer curtain fel y dywedir ond y curtain olaf oedd yng Nghrematorium Pontypridd, a'r arch yn diflannu o'n golwg drwy'r llenni a Dennis erbyn hyn nid yn dyfalu ond yn gwybod cyfrinach y Future Life. Os medr ddod yn ôl yn yr ysbryd credaf y'i ceir yn yr haf ar draeth Llangranog, gylch llwyfan y Little Theatre ar wyl chwarae drama, ac ar ambell hwyr Sul yn ei bulpud yn yr Hen Dŷ Cwrdd.

Ffarwel.

D. T. Williams.

(*Llefarwyd y geiriau yma gan Mr. Williams yn yr Hen Dŷ Cwrdd, ddydd yr angladd*).

Dyma ddiwrnod tywyll yn hanes yr Hen Dŷ Cwrdd. Dydd colli gweinidog annwyl a chyfaill unplyg. Y mae yn golled i'r eglwys yma ac yn golled bersonol i mi. Bu yn weinidog ar yr Hen Dŷ Cwrdd am bedair blynedd ar ddeg ar hugain ; bu'n weinidog i mi am ddeunaw mlynedd ar hugain. Yn weinidog a chyfaill. Yr oedd ynddo gymwysterau a rhinweddau arbennig ; yr oedd yn dawel wrth natur, yn barod bob amser i wasanaethu ei enwad a thuallan i'r enwad. Yr oedd yn gredwr mawr yn y byd ar ôl y bedd a chredai'n ddiysgog fod yr hen gyfeillion Undodaidd, yr hen fforddolion yn talu ymweliad a'r gwasanaethau. Yr oedd yn medru teimlo eu presenoldeb a bu llawer oedfa yn yr Hen Dŷ Cwrdd nas anghofir byth. Un ohonynt yn ddiweddar—wrth dderbyn aelod newydd. Yr oedd yr ysbrydoedd yn cyhwfan yn y

cylch, yn cerdded y glannau. Mae yntau wedi croesi'r glannau bellach, a gallaf ddychmygu rhai o'i hen gyfeillion yn ei groesawu â breichiau agored : Gwilym Griffiths, Tyssul Davies, Taliesin Griffiths a'i gyfaill mynwesol Tom Phillips a oedd newydd groesi. Rhyw bythefnos yn ôl yr oedd Mr. Dennis yn angladd Tom Phillips. Methodd a chyrraedd hyd lan y bedd. Bu raid iddo sefyll o wres yr haul dan gysgod hen ywen fawr a phawb yn ei gyfarch. Yntau yn eu cyfarch yn ôl megis wedi cyrraedd yr ywen a dyfod i'r fynwent i roi ffarwel i'w gyfeillion.

Mae'r bwlch yn fawr ; ni ellir ei lanw'n hawdd. Mae yna gyfaill, mae yna ŵr bonheddig, mae yna weinidog ffyddlon, mae yna ŵr Duw wedi ein gadael. Ddwy flynedd ar bymtheg yn ôl teithiodd Mr. Dennis yn ôl o Langranog i'n priodi. Dyma ni heddiw wedi teithio o Langranog i dalu'r gymwynas olaf.

Pob bendith a chydymdeimlad i Mrs. Dennis yn ei galar ac i Raymond yr unig fab draw yn yr Affrig bell—rhy bell i ddod i Gymru i dalu'r gymwynas olaf i'w dad a'i carodd yn angherddol. Rhy bell i fod yn gysur i'w fam yn ei hunigrwydd, ond nid rhy bell i gortynnau byd y meddwl a'r ysbryd ddanfon eu neges.

Gwyn fyd y rhai trwy ffydd
Sy'n mynd o blith y byw ;
Eu henwau'n perarogli sydd
A'u hun mor felys yw.

Yn yr Angladd.

CARAI llawer o ddarllenwyr YR YMOFYNNYDD pe bai wedi bod yn bosib iddynt fynd i angladd Dennis. Ef a bregethai'n olaf yn ein cyfarfodydd yn sir Aberteifi ; ef oedd yn tywallt rhyw fendith ysbrydol ar y cyfan. Ni allech ddod—yr oedd yn rhy bell ac nid oes dim amdani ond ceisio disgrifio teyrnged gwŷr a gwragedd Aberdâr dydd Llun, yr 8fed o Awst. Tyrfa yn y capel ymhell cyn yr amser a thwrr bach o gyfeillion agos ar yr aelwyd yn gwrando ar wasanaeth syml gan y Prifathro J. D. Jones a'r Parch. S. E. Bowen. Pan aethpwyd i mewn yr oedd y capel dan sang a'r llwybr yn llawn ac ambell un swil am nad oedd yn gyfarwydd a mynd i gapel yn sefyll o hirbell fan draw a'i gap yn ei law, o barch i Dennis. Onid yw pawb yn deall crefydd, mae pawb yn deall gŵr bonheddig a chymwynaswr. Tu fewn, yr oedd y cloc wedi aros uwchben y pulpud. Safodd y gynulleidfa ar ei thraed yn wreng o bonedd, yn wŷr a gwragedd o bob crefft a chred ac o bob oed. Canwyd "Dy Heddwch Ior a gweld dy wedd", darllenwyd y Gwynfydau a dau ddarn o farddoniaeth hoff gan yr ymadawedig gan ei gyd-weinidog yn Aberdâr. Offrymwyd gweddi syml, ddwys gan y Parch. T. O. Williams. Mynegodd y Parch. J. Marles Thomas

deimladau'r gynulleidfa mewn geiriau pwrpasol, "yr hen bulpud mewn hiraeth a'r welydd yn wylo" ; sôn am berlau'r cwrdd trafod a gawsai'r gweinidogion ar fore Llun ar aelwyd Dennis ; sôn am ei galon a oedd fel ei ddrws yn agored a chroesawgar bob amser. Sôn am y myfyriwr mawr. Wedyn daeth dwy deyrnged brydferth o blith ei gynulleidfa, eiddo Mr. D. T. Williams ac eiddo Mr. Edgar Williams, ' gŵr bonheddig a dyn y bobl,' oedd ei weinidog, meddai'r olaf. Yna cododd y Parch. E. O. Jenkins i ddweud mai ar wyliau y mae adnabod dyn orau ; adnabu ef Mr. Dennis ar ei wyliau yn Llangranog ac yr oedd Mr. Dennis yn gystal dyn a phregethwr yno ac a oedd yn ei bulpud ac wrth ei waith. Ni allai feddwl am neb yn llanw gofynion y gwynfydau yn well. Dyma ŵr pur ei galon. Cymerwyd rhan gan weinidogion o enwadau eraill ac aethom allan yn sŵn melodi'r organ. Tyrfa fawr o'r tu allan yn awr a'r ffarwelio'n dyner iawn. Aeth cwmni bach i'w hebrwng i Grematorium Glyn Taf, a rhaid gweld y capel bach yno a'r seremoni syml hardd cyn credu mai dyma a fydd ffordd y dyfodol i ymadael â'r hen babell. Arweiniwyd yma eto gan y Parch. J. Marles Thomas a gwasanaethwyd gyda chynhorthwy y Prifathro, y Parch. E. J. Williams, Notais a'r cyn-Brifathro Islan Jones.

Yn Llangrannog, dydd Iau, gwasgarwyd llwch Mr. Dennis ar hen gripell hoff ganddo. Ni chyhoeddwyd mo'r seremoni ond daeth llu o gyfeillion ynghyd i roi'r ffarwel olaf. Darllenwyd gan y Prifathro, offrymwyd gweddi gan y Parch. E. O. Jenkins, ac fe draddodwyd gwerthfawrogiad byr gan y Parch Tudor James, ei gyfaill gwyliau mynwesol. Ar ôl y gwasgaru bu'r sgwrs yn hir a'r cof yn felys.

A'r deyrnged olaf i gyd a dalwyd iddo oedd y Cwrdd Coffa arbennig a gynhaliwyd nos Sul, Awst yr 21ain, yn yr Hen Dŷ Cwrdd. Pregethwyd gan y Parchn. D. Jacob Dafis a'r Parch. J. Marles Thomas. Gwelodd y cyntaf y proffwyd yn ymadael, megis Elias gynt, ond yn gadael ei fantell, mantell yr Undodwr ar ôl, i'w chodi gan rywun. Pregethodd Mr. Thomas ar y testun "Ac efe a gadwodd ei ffydd". Dyna oedd nod arbennig Mr. Dennis, meddai, dyn wedi cadw ei ffydd hyd y diwedd. Yr oedd yno dyrfa fawr, eithr yr oedd yr Hen Dŷ Cwrdd yn wâg—yn wâg heb ei weinidog.

ANADLA ARNOM.

Tôn : *Crimond.*

ANADLA arnom oddi fry
Di ysbryd sanctaidd glân ;
Nes troi o'r nos yn ddisglair ddydd
A'r dwysaf gur yn gân.

Anadla arnom Ysbryd Glân
  Fel yn y dyddiau gynt ;
Gad inni brofi nerth dy ras,
  A grym y Dwyfol Wynt.

Di Ddwyfol Wynt, ymwêl â ni,
  Anadla drwy y glyn ;
Nes codi'n fyw, yn dyrfa fawr
  Yr esgyrn sychion hyn.

Di Ysbryd Glân, pan ddeui di,
  I'n plith fel dwyfol dân ;
Sancteiddiach fydd ein buchedd ni
  A dwysach fydd ein cân.

Yn wan a llesg mae d'eglwys 'nawr
  O gwrando ar ei llef ;
A rho drachefn o ddawn dy ras
  Y dwyfol dân o'r nef. E. R. Dennis.

(Rhoddwyd yr emyn yma ac un arall i'r golygydd gan yr awdur ryw wythnos cyn ei farw. Ar ei air cyfansoddwyd hwy yng nghanol y nos pan oedd diffyg anadl a llesgedd yn cadw cwsg ymhell. Yn ei lesgedd ei hun gwelodd ddarlun o eglwys Dduw, a gofynnodd "anadla arnom . . ." Argreffir yr emyn yn union fel ei cafwyd.)

Interview a Gwyr Blaenllaw'r Enwad.

Gan "Walch Ogwr".

I.

Y Parch. David Evans, Cwmiago.

Y peth gorau a welais yn y *Western Mail* erioed oedd "Interview" y Junior Member for Treorchy. Yr oeddynt fel cartŵn mewn geiriau—yn dangos mawredd a gwendid dyn wedi eu mawrhau. Pwy ddydd a minnau yn eistedd ar orsaf Penybont-ar-Ogwr yn disgwyl y trên, daeth yr ysgrifau'n fyw i'm cof. Gan fod gennyf amser tybiais y gwnawn y gymwynas hon â'r Ymofynnydd. Yr own yn darllen Yr Ymofynnydd a thrwy gil fy llygad gwelwn fod arall yn ei ddarllen dros fy ysgwydd. Ymhen tipyn eisteddodd y gŵr ifanc wrth fy ochr gan ofyn ba gylchgrawn oedd gennyf.

Dywedais wrtho gan ofyn a oedd peth gwaed Undodaidd yn ei wythiennau. Atebodd gyda balchter fod teulu ei fam i gyd yn Undodiaid a'i fod yntau mwy neu lai yn Undodwr. Holai hynt a helynt ein gweinidogion gan ddweud ei fod wedi bod yn ein Cymanfa Ganu y tro cyntaf eleni, a'i fod wedi'i swyno gan y gŵr *ifanc* a ddechreuodd y cwrdd yn y bore. Gan nad oeddwn yno ni fedrwn ei gadarnhau na'i amau ond creodd ei eiriau awydd ynof i ymweled â Mr. Evans yn ei gartref y cyfle cyntaf. Rhag ofn bod eraill yn yr un picil â minnau, heb weld na chlywed Mr. Evans, ceisiaf ei ddarlunio i chwi fel ei gwelais ar ei aelwyd. Nid clod na bri fydd yn cyfrif gennyf, ond bydd gennyf "fy marc fy hun" ar bob un yr ymwelaf ag ef. Deuthum gyda'r bws drwy ardal hyfryd a meddyliais am David Davies, Castell Nedd a'i ysgol ; am y trwp Undodiaid a fu unwaith yn Llandybïe ; cofio am yr Onnenfawr a Llandyfaen a'r hen Broffeswr Evans yn ŵr ifanc yn pregethu yno a dod i Lanbedr Pont Stephan heb weld neb yr oedd yn adnabod yno. Hwyrach fod y gweinidog yn rhy brysur gyda'r etholiad !

Wedi newid i fws y Crosville, a chychwyn am Gwmiago, yr oedd yr olygfa yn fendigedig a dyffryn Teifi yn ymagor o'm blaen. Wedi symud o Ddyffryn Teifi i Ddyffryn Granell, culheai'r cwm a gwelwn Gapel-y-Groes, hen gapel Mr. Evans gyda llaw, a doi atgofion am Ddafydd Siencyn Rees, John Jâms, Rees Davies, Thomas Thomas a Dafydd Evans yn fyw i'm cof. Ni wn a ydych rywbryd wedi ceisio tynnu darlun o ddyn heb ei weld erioed. Ni wyddwn ai tal ai tenau, ai byr ai corffog oedd Mr. Evans ond yr oedd gwraig siaradus yn y bws. Wedi ymgom am bopeth a dim byd, holais am Gwmiago. "O," meddai hithau a balchter yn ei llygad ac anwyldeb yn ei llais, "yr ych yn mynd i weld Mr. Evans."

Nid atebais ond holais sut un ydoedd ond rywsut canmol Mr. Evans a wnai ac nid ei ddarlunio. Ymhen tipyn safodd y bws a disgynnais innau ar bwys Cwmiago—cartref meudwy a gŵr Duw, ysgolfeistr a gweinidog, a thynnais fy het wrth gnocio'n wan ar y drws. Daeth rhywun fel drychiolaeth i'r drws a chath bert yn ei gôl. Yr oedd y wraig wedi dweud ei fod ymhell dros ei bedwar ugain, ond edrychai arnaf fel crwt â gwên chwareus yn ei lygad. Ofer dweud wrtho mai gohebydd arbennig Yr Ymofynnydd oeddwn ond yr oedd yn rhaid ei brathu hi rywsut neu gilydd. Nid oedd yn fy adnabod, ac nid oedd dim amdani ond sôn am y Betws a Phenybont-ar-Ogwr. Cyn gynted ag i mi ei weld, cofiais am ddau ffrind wedi eu galw i'r fyddin yn ystod rhyfel 1914—1918. Yr oedd un yn dew a'r llall yn denau. Yr oedd y gŵr tew braidd yn ofnus a'r gŵr tenau yn edliw hynny iddo nes ei gyffroi i ddweud, "Hawdd i ti sharad ! Fe fedret ti gwato tu ôl i'r bidog". Credaf y medrai Mr. Evans gwato tu ôl i rywbeth lled gul. Cilwenwn wrth eistedd yno o gofio hen stori am weinidog yn gofyn dro ar ôl tro i fachgen ifanc ddechrau cwrdd yr wythnos iddo. Dechreuodd y llanc fagu

gwynt gan fynd at y gweinidog i'w holi, "Pam yr ych yn gofyn imi ddechrau'r cwrdd bron bob wythnos ac i neb o'r lleill", meddai. Gwyddai'r gweinidog ei ddolur a gofynnodd iddo, "Welsoch chi'ch mam yn gwneud canhwyllau eriôd"?

"Do", meddai yntau, "ond pam yr ych yn gofyn"?

"O mi weda i wrthych", meddai'r gweinidog. "Sylwoch chi ddim fod eich mam yn *dipio'r* canhwyllau meinaf yn amlach o lawer na'r lleill". Tawodd fel pe bai wedi'i saethu. Fe anghofiodd rhywun dipio Mr. Evans gan ei adael yn fain o gorff, a chyn sythed a'r saeth, ond y mae'r meddwl treiddgar, yr olwg freuddwydiol a'r wybodaeth helaeth yn siarad drostynt eu hunain. Gŵr *shy* yn ystyr oreu'r gair ydyw, heb wthio'i hun i'r amlwg mewn dim. Rhedai'i feddwl praff a'i gof miniog yn ôl i'r amser gynt a gallwn feddwl fod William James, Gwilym Marles, T.T., John Davies, Hathren, Cribin Jones ac R.J.J. gyda ni yno. Yr oedd ganddo atgofion melys am yr hen gewri a diddorol ei glywed yn sôn am Evan Cwmpib ac yntau yn cystadlu ar y ddeuawd yn Rhydygwin. Digon tebyg iddynt golli a chollodd Cymru ganwr yn Mr. Evans. Yn yr un cwm y treuliodd ei oes ar ei hyd, a hen ysgol feistr ardal ydyw, a'i hen fyfyrwyr wrth yr ugeiniau yn cofio amdano. Nid oeddwn i yn eu hadnabod yn ddigon da i'w dynnu ymlaen i sôn am droion direidus slawer dydd.

Ni chofiaf pu'n ai Gwilym Evans neu'r diweddar Arthur Thomas a ddywedai wrthyf unwaith mai ysgolfeistr *strict* ydoedd. Yr oeddent wedi bod yng Nghymanfa Ganu a heb feddwl y troiai Mr. Evans i'r lan fore trannoeth, wedi cymryd "holiday" i fwrw eu blino. Bu'r troseddwr ta p'un o'r ddau ydoedd bron cael ei anfon adref *for good* am golli'r ysgol. Yr oedd Mr. Evans o ddifrif yn yr ysgol fel ymhobman a byddai ychydig o'r *strictness* o lês heddiw yn ein hysgolion. Ofnaf mai rhy rwydd yw'r llwybr heddiw a'r do ifanc ddim yn gwerthfawrogi ei breiniau. Gylch ogylch imi oedd notebooks Mr. Evans, a nifer o bregethau wedi'u hysgrifennu ond heb eu pregethu erioed. Ef yw'r unig bregethwr a stoc o bregethau'n barod ganddo. Y mae'n ddigon ffwdanus ar y mwyafrif i gael pregeth yn barod hwyr Sadwrn heb sôn am ddwsin neu ragor yn sbâr, ond dyna Mr. Evans i chwi eto. Medr ysgrifennu Cymraeg persain a dywedir iddo amcanu bod unwaith yn Ddaniel Owen yr enwad pan enillodd ar y nofel honno yn Aberaeron. Y mae wedi ysgrifennu mwy ond odid na neb i'r YMOFYNNYDD ac ysgrifennu bob amser yn dlws a chryno heb wastraff ar air na gormod lliw ar frawddeg. Drwy gydol ei oes faith cadwodd ei gynulleidfa yn gytûn a chyfan, a dywedir ei fod yn annwyl o hyd ganddynt.

Y mae'n arferiad gan y gwŷr a'r *mike* i ofyn i rywun ba gân a hoffai glywed. Gofynais i Mr. Evans beth oedd dymuniad mwyaf ei galon ar y pryd. Tybiwn y gofynnai hwyrach yn chwaraeus am

gael byw yn gant oed. Nid oedodd yn hir cyn ateb. Gwelais ddeigryn yn gwlitho'i lygad a'i ên yn crynu. Tybiais i mi roi nhroed yn ddifeddwl ynddi. Atebodd yn glir a chroyw—"Fy nymuniad yw gweld cynulleidfa Capelygroes unwaith eto yn gytun, y rhwyg wedi'i chyfanu a phobl Dduw yn cerdded yn gytun yn Ysbryd Crist". Nid oes rhagor i'w ddywedyd, a chredaf y suddir y mân wahaniaethau er mwyn calonogi'i hen weinidog a gwneud gweddill ei ddyddiau yn bleser a boddhad iddo. Credaf nad yw'n gofyn gormod a chredaf na chynnig cynulleidfa Capelygroes lai iddo. Yr oedd y bws yn dod a'r olwg ddiwethaf a gefais arno oedd yn sefyll yn y drws fel darn o slawer dydd.

Y Gymanfa Ganu, 1949.

Y MAE rhyw atynfa gan y Gymanfa Ganu dyweder a fynner, ac y mae weithian yn 'Red Letter Day' yn hanes yr enwad yng Ngheredigion a Morgannwg. Y flwyddyn nesaf bydd Llundain yn ymuno a ni gan drafaelu pedwar can milltir yn ôl a blaen er mwyn cael moli Duw gyda ni. Dyna rywbeth i edrych ymlaen ato a gobeithio y byddwn yn gryno yn Llandysul i'w croesawu.

Yr oedd y tywydd eleni yn boeth a'r gynulleidfa hwyrach nid mor lluosog ag arfer ond yr oedd y capel yn orlawn. Credaf mai cwrdd y bore—cwrdd y plant yw'r cwrdd gorau bob amser ac nid oedd leni'n eithriad. Dechreuwyd oedfa'r bore gan yr Hybarch David Evans, Cwmiago ac ni chredaf imi erioed ei glywed yn well. Plentyn mawr ydyw. Llywyddwyd yn felys a naturiol gan Mrs. I. G. Williams, Dothan, hithau yn dod o deulu o gantorion, ac yr oedd y plant wedi rhagori arnynt eu hunain. Yr oedd yn bleser eu clywed yn adrodd yr emynau. Yr arweinydd oedd Mr. Idris Griffiths a Mr. Ted Morgan wrth yr organ—a'r ddau yn feistriaid. Gwnaeth Mr. Denzil Davies ei waith heb ffwdan a chredaf fod y gynulleidfa drwy'r dydd yn weddaidd ac addolgar. Yn y prynhawn dechreuwyd y cyfarfod gan y Parch. Ellis Jones, Noddfa, a llywyddwyd yn ei ddull tawel a phwyllog ei hun gan y Prifathro J. D. Jones, B.A., B.D., Caerfyrddin, a chanodd y Côr ar ei orau gyda phob llais yn glir a chroyw ac yr oedd eneiniad ar aml i dôn ac emyn. Yn yr hwyr dechreuwyd gan y Parch. Lewis Williams, a llywyddwyd yn fedrus gan un o wŷr Soar—Tom Davies, a gwnaeth ei waith yn ddeheuig gan ddatgan ei bod yn bleser gan y gynulleidfa roi benthyg y Capel inni. Yn absenoldeb Mr. Josiah Jones, Y.H. yn yr hwyr talwyd y diolchiadau gan weinidog Brondeifi, yntau wedi bod wrth y llyw drwy gydol y dydd. Mwynheais fy hun o'r dechrau i'r diwedd a chredaf inni gael Cymanfa dda, ond fe ddaw yr un cwestiwn ataf o hyd ac o hyd, ble mae'r cantorion ifainc. Yr oedd y plant yn dda ond yn y tenor ni chlywaf nemor i lais newydd a phan beidia Terwyn a Phenarwel bydd bwlch yn y Tenor nas llenwir ar fyr. Nid oes ond gobeithio'r gorau a gofyn am ragor o sêl a ffyddlondeb.

X.Y. Z.

Nodiadau ar Thomas Stephens, yr Ysgolhaig.

Miss Mair Gregory, M.A.

(*Gweler Rhifyn Awst* 1949).

1. N.L.W. MS. 964E (casgliad o lythyron ymhlith llawysgrifau Stephens yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth). Mewn llythyr a dderbyniodd Stephens o'r Unol Daleithiau (Tachwedd, 1861), gofynnir iddo gan John D. Jones, athro yng Ngholeg Iâl, yn gyfrinachol, os derbyniai radd M.A. Iâl. Buasai'r gŵr hwn yn siarad â rhai o athrawon y Coleg ynghylch y peth. Ni chafwyd yn unman ddim gwybodaeth pellach am hyn, ac ni chafodd Stephens y radd, yn ôl pob tebyg, am nad oedd yn ymgeisio at unrhyw anrhydedd o'r fath. Dyn felly ydoedd, fel y tystia'r hanes amdano'n gwrthod tysteb gan bwyllgor Llyfrgell Gyhoeddus Merthyr, pan ymddiswyddodd o'r ysgrifenyddiaeth tua 1868. Er mwyn y gwaith ei hun y llafuriai Stephens, nid er mwyn ennill clod ac anrhydedd.

2. Megis Tegid (John Jones, ficer Nanhyfer o 1841—1852).

3. B. T. Williams, A.S., o flaen ail argraffiad y *Literature of the Kymry* (golygydd D. Silvan Evans), 1876. Y ddau draethawd oedd 'A History of the Life and Times of Iestyn ab Gwrgant . . .' (Eisteddfod Lerpwl), a 'Hanes Lleoedd yn Swydd Geredigiawn . . .' (Eisteddfod y Fenni : N.L.W. Mss. 929C. a 926C.

4. *Celtic Researches* (1804) a *The Mythology and Rites of the British Druids* (1809). Enwir y rhain am y ceir Stephens yn dymchwel damcaniaethau Davies yn ei lyfr.

5. *The Literature of the Kymry*, t. 51 (Argraffiad cyntaf).

6. Argraffwyd yn 1888 (golygydd Thomas Powel), dan nawdd Cymdeithas Anrhydeddus y Cymmrodorion. Cyfeirir gan Stephens at Gyfundrefn Morgannwg ar dud. 15 y Rhagymadrodd.

7. *The Literature of the Kymry*, tud. 207 (Argraffiad cyntaf).

8. Ceir casgliadau Stephens am Fadog yn ei *Madoc : An Essay on the Discovery of America by Madoc ap Owen Gwynedd in the Twelfth Century*, 1893 (golygydd Llywarch Reynolds), nid yn y *Literature of the Kymry*.

9. N.L.W. MSS. 964—5E. (Stephens 61—2).

10. *The Literature of the Kymry*, tud. 123 (Argraffiad cyntaf).

11. W. J. Rees (*Liber Laudevensis*, 1840) : Rush Meyrick (*Heraldic Visitations . . . by Lewys Dwnn*, 1846).

12. Yn Awst, 1852, derbyniodd Stephens lythyr gan Thomas Phillipps yn cynnig iddo swydd llyfrgellydd y llyfrgell y bwriadai ei sefydlu yng Nghymru —praw o'i syniad uchel am ysgolheictod Stephens.

13. N.L.W. MSS. 919B. a 937B. Carl Meyer, Almaenwr o Rinteln, a enillodd y wobr yn 1842. Wedyn daeth yn llyfrgellydd y Tywysog Albert, a bu yng Nghymru (dan ofal Carnhuanawc a Thegid) yn dysgu Cymraeg.

14. The Literature of the Kymry, tud. 457 (argr. cyntaf).
15. ibid., 449.
16. ibid., 450.
17. N.L.W. MS. 1808D. (Crosswood 168).
18. N.L.W. MS. 931C. (Stephens 28).
19. Ond anfonodd draethawd ar "The Origin of the English Nation" i Eisteddfod Caer yn 1866 (N.L.W. MS. 907C.).

Marwgofion.

Mai 29ain, yn 66 mlwydd oed bu farw CHARLOTTE ETHEL PRICE yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth ond o Stanmore, Heol y Bont, Llanbedr. Hannai o deulu y Parch. Arthur Williams a fu'n brifathro Ysgol Ramadeg Llanbedr tua 1800. Nid oedd gwell Lottie fel ei gelwid ac yr oedd yn ffyddlon i Frondeifi tra gallodd. Daeth gartref i edrych ar ôl ei mam a chadwodd ddrws agored i'r teulu i gyd. Gwelodd gladdu ei thad a'i mam, dau frawd a dwy chwaer, ac o deulu lluosog nid oes ond dwy chwaer a brawd yn aros. Collodd ei iechyd flynyddoedd yn ôl. Cafodd ergyd o'r parlys ac ni fedrai gerdded cam o'r fan. Drwy'r amser hir breuddwydiodd am Frondeifi ac am ddod yn ôl i Lanbedr. Ni chafodd ei dymuniad ond daeth yn ôl i orwedd gyda'i theulu ym mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd gan y gweinidog gyda chynhorthwy y Parchn. Ellis Jones ac E. O. Jenkins.

Mehefin 3, bu farw ELINOR HEFINA JONES, Dyffryn, Drefach, Llanwenog yn 20 mlwydd oed ar ôl cystudd hir yn Ysbyty Tregaron. Claddwyd y dydd Mercher dilynol ym mynwent Alltyplaca lle gorwedd gweddillion ei thad a rhai o'i theulu. Gwasanaethwyd gan y Parchn. S. E. Bowen a S. Morgan, Ficer. Yr oedd ei thylwyth o blith cysylltiadau cynnar Alltyplaca. Cydymdeimlir yn fawr â'r teulu yn ei galar.

Y 12fed o Fehefin, yn 92 oed, bu farw WILLIAM LEWIS, Frondes, Rhydaman, ar ôl wythnos o gystudd, gan adael dwy ferch, pedwar mab, un chwaer, a pherthynasau agos eraill, mewn hiraeth o'i golli. Genedigol ydoedd o ardal Cwrtnewydd, mab i Lewis a Rachel Lewis, Frondes. O'i blant, y mwyaf adnabyddus i'n darllenwyr yw Mrs. Evans, Felinban ; ac y mae un o'i feibion yn weinidog gyda'r enwad Bedyddiol yng Nghaergybi—y Parch. L. G. Lewis. Collodd ei briod tua dwy ar bymtheg o flynyddoedd yn ôl, ar ôl bywyd priodasol difwlch o hapusrwydd, a bu hyn yn ergyd caled iddo ; eithr bu ei wyres, Mrs. Mima Richards, yn hynod o ofalus ohono yn ystod tymor ei weddwdod—a dywed Amanwy, yn ei erthygl goffa yn un o'r papurau lleol, cysegrodd ei bywyd "i ofalu am ei thadcu". Symudodd y teulu i Rydaman yn 1902. Ar ei sefydliad yno, ymunodd â'r Eglwys Fedyddiol yn Ebeneser, a phrofodd ei hun yn aelod a diacon ffyddlon a gweithgar. Cwmnïwr digymar ydoedd ; a phleser oedd gwrando arno yn adrodd ei helyntion o'i faboed hyd y daith hir i'r 92 oed—dechreu fel bugail tua'r wyth

oed am y gyflog anrhydeddus o ddimai'r dydd, onid oes "rhyw newid rhyfedd, er hynny, ar y byd" ! Er na pherthynai ef a'i briod i'r un enwad—bu hi yn aelod o'r Eglwys yng Nghapelygroes hyd ei marw—eto, ni bu hyn yn achos lleiaf o ymrafael ; a bu Frondes yn "dŷ galw" i'r gweinidogion bryd bynnag y deuent i'r cynteddau. Y dydd Iau dilynol, hebryngwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent Capelygroes, yn ymyl eiddo ei annwyl briod, gan nifer luosog o'i gymdogion a chyfeillion. Ar ôl gwasanaeth byr yn y tŷ, aed tua chapel Ebeneser i'r gwasanaeth coffa ; yr oedd y capel yn orlawn. Yn ei anerchiad, dug ei weinidog, y Parch. E. Llwyd Williams, dystiolaeth uchel iddo, nid yn unig fel aelod a diacon, eithr i'w gymeriad uchelryw. Siaradwyd ymhellach gan amryw weinidogion eraill. Yng Nghapelygroes gwasanaethwyd gan ei weinidog, gyda chynorthwy'r Parch. S. E. Bowen a'r Parch. D. Evans.

Mehefin 24, yn 31 mlwydd oed bu farw WILLIAM CHARLES JENKINS (CHARLIE), mab y diweddar Mr. a Mrs. William Jenkins, Glynmeherin, Llanwenog. Gwanaidd oedd ei iechyd ers tro a rhyddhad oedd ei ollwng adref, ond cofia'i hen ffrindiau am Charlie yn garedig. Claddwyd ym mynwent Capel-y-Groes a gwasanaethwyd gan y Parchn. S. E. Bowen a T. O. Williams, yr angladd yn anghyoedd. Gadawodd frodyr a chwiorydd i wylo deigryn uwch ei fedd.

Mehefin 28ain, yn 70 oed, WILLIAM HENRY HARRIES, "The Hawthorns", Hengoed. Mab ydoedd i'r diweddar ffyddlon William Harries, Assistant Overseer, Cefn Coed, ac Ysgrifennydd Eglwys yr Hen Dŷ Cwrdd, Cefn am y cyfnod maith o 40 mlynedd. Nodwedd arbennig y teulu oedd ei ffyddlondeb diball i'r cysegr a sêl grefyddol. Pa ryfedd hyn a hwythau o linach Siôn Llewelyn, sefydlydd yr achos yma yn 1747, a pherthynas gwaed yn ogystal a ffydd i'r Parchn. Owen Evans a Wm. James, Llandysul. Derbyniodd Mr. Harries ei addysg gynnar yn ysgol y Parch. J. Hathren Davies. Ef oedd un o'r olaf o fyfyrwyr yr hen Academi Undodaidd. Ymadawodd â'r hen fro yn ifanc i fod yn Assistant Overseer a Rating Officer plwyf Gelligaer—un o'r plwyfi mwyaf yn y wlad. Llanwodd ei swydd gydag urddas a ffyddlondeb gan arbed costau helaeth bob blwyddyn i'r Awdurdodau. O fagwraeth ac argyhoeddiad yr oedd yn Undodwr selog. Perchid ef gan bawb am ei onestrwydd meddyliol a chadernid ei gymeriad. Cas ganddo ragrith o unrhyw fath. Nid cred oedd Undodiaeth iddo eithr bywyd a thrwy ei fywyd bu yn ffyddlon i'w Dduw a'i gyd-ddyn, i'w waith a'i gysegr. Yr oedd yn aelod o gangen Caerffili o'r Seiri Rhyddion. Daearwyd ei weddillion ym mynwent yr Hen Dŷ Cwrdd a'i weinidog y Parch. J. Marles Thomas yn gwasanaethu. Gedy mewn hiraeth ei unig ferch, Aylwyn, ynghyd â dwy chwaer, Mrs. J. R. Evans a Miss Lilian Harries. Y mae ein cydymdeimlad â hwy yn fawr yn ei colled.

Gorffennaf 5, yn Ysbyty Aberystwyth, DAVID WYNDHAM, baban Mr. a Mrs. William John Williams, Cofadail, Cwrtnewydd yn 19 mis oed.

Byr ond caled oedd ei gystudd. Cydymdeimlir yn fawr â'r rhieni yn eu profedigaeth. Claddwyd ei weddillion y Sadwrn dilynol ym mynwent Llwynrhydowen pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a S. E. Bowen. "Gwywa'r gwelltyn, syrth y blodeuyn".

Gorffennaf 16 bu farw JOHN EVANS, Crown Cafe, Llanbedr yn ddirybudd. Yr oedd i bob ymddangosiad yn ei gynefin iechyd ond cafodd ergyd o'r parlys a bu farw ymhen deudydd. Gŵr o blwyf Llanwenog ydoedd, ac ni anghofiodd hynny. Mab fferm y Sychbant ond wedi dod i Lanbedr ers blynyddoedd ac wedi gwneud masnach fawr ennill ei barch yn y dref. Gŵr rhadlon a charedig, cymwynasgar a llon ydoedd, ac yr oedd John Evans, y Crown fel ei adweinid, yn fawr ei barch gan bobun, ond nid yn fwy gan neb na chan ei hen ffrindiau. Ni chymerth nemor o ddiddordeb yng ngwaith cyhoeddus y dref ond ar y *green* yr oedd yn chwareuwr di-ail ; ef yn Llywydd y clwb bowlio. Ni welid ef yn unman yn fwy hawddgar nag ar y *green*. Claddwyd y dydd Iau dilynol ym mynwent Eglwys Sant Pedr, Llanbedr. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. T. O. Williams, M.A. ; yn yr Eglwys gan y Parchn. T. E. Jenkins, B.A., B.D. ; M. M. Bowen, M.A., Curad ; D. Jones, Ficer Llanddeusant ; S. Morgan, Ficer Llanwenog a J. Morgan, Ficer Trefilan. Gadawodd briod, mab a dwy ferch, brawd a chwaer oedrannus heb law llawer o ffrindiau i alaru ar ei ôl. Un o'r goreuon.

Gorffennaf 26, yn 40 mlwydd oed, bu farw JOHN MORGAN JAMES, C.M., ysgolfeistr Cellan. Yr oedd wedi bod dan driniaeth lawfeddygol ryw ddeuddeg mis yn ôl a chredid yr adeg honno ei fod wedi trechu'r dolur. Nid oedd wedi bod yn yr ysgol oddi ar hynny hyd ryw dair wythnos cyn ei farw. Ni bu yn ei wely y tro hwn ond ychydig ddyddiau a dihangodd adref o'i boen a'i lesgedd yn ddirybudd bron. Hannai o hen deulu Beilibedw a Choedfoel, Llandysul ac yr oedd gorau y ddau deulu yn ei gymeriad. Gŵr llednais a charedig oedd ac ysgolfeistr rhagorol. Yr oedd gwaith yr Urdd wrth fodd ei galon, a saif aelwyd Cellan fel teyrnged i'w ddiwydrwydd. Bymtheg mlynedd yn ôl apwyntiwyd ef i'w swydd yng Nghellan a llanwodd hi i fodlonrwydd y plant, y rhieni a'r awdurdodau. Ni chredaf y ceir gŵr o gymeriad gwell a mwy egnïol i Gellan. Llanwodd ein pulpudau i fodlonrwydd pawb a bu'n arholydd yr ysgol Sul am flynyddoedd. Gwelir ei eisiau yn yr Ysgol yng Nghaeronnen ac yn yr ardal, ond nid yn unman fwy nag ar aelwyd Awelon. Claddwyd yng nghladdfa gyhoeddus tre Aberteifi. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. J. Hughes, Ficer ; Anthony Davies (A) ; a'i Weinidog, y Parch. T. O. Williams, ac yng nghladdfa Aberteifi gan y Parch. Ganon Hamer. Gadawodd briod ac Ann yn ddeuddeg oed i alaru ar ôl priod tyner a thad gofalus.

Gorffennaf 29, Miss SARAH JAMES, Klanna, Capel Iwan, Castellnewydd Emlyn, yn 71 oed. Treuliodd y rhan orau o'i hoes yn gweini (Wardress) mewn carchardai yng Nghaerdydd, Birmingham a Llundain. Yno bu'n ymwneud â gwragedd a merched a droseddasant gyfreithiau gwlad. Cofiai

am rai a dreuliodd bron hanner eu hoes yn y carchar. Gallesid meddwl y buasai i hyn ddiflasu a suro ei hysbryd a gwneud *pessimist* ohoni, ond fel arall y bu : credu fod yna lawer o elfennau da hyd yn oed yn y rhai hyn. Fel ei thad ac eraill o'r teulu yr oedd y grefydd Undodaidd o bwys mawr yn ei golwg. Nid Undodraig mewn cred yn unig oedd, ond bu'n ffyddlon i'r gwasanaethau ar y Sul lle bynnag y byddai, ac nid Undodraig mewn syniadau oedd ond yn ei buchedd yn ogystal. Hoffai wasanaeth o addoliad ac yr oedd capel bach Panteg fel cannwyll ei llygad iddi. Yr oedd Duw, daioni Duw a chyfrifoldeb i Dduw yn bethau real iddi ac yn ei buchedd yr oedd yn onest o feddwl ac o ysbryd caredig. Yr oedd tosturio wrth y gwan a'r anffodus megis bwyd a diod iddi. Os, fel y dywedodd yr Iesu, mae caru Duw a helpu cyd-ddyn yw hanfodion y Deyrnas, os dyna sy'n gwneud Cristion, yna 'roedd hon yn wir Gristion. Estynnwn ein cydymdeimlad i'r chwiorydd, brawd, chwaer-yng-nghyfraith ac eraill sy'n wylo o'i cholli. Hebryngwyd ei gweddillion i gladdfa'r teulu ym mynwent Capel Iwan y Mercher dilynol, Yn unol â'i dymuniad gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins gyda chynhorthwy T. Jones (A), Soar, Penboyr ; S. E. Bowen a Mr. Thomas, Gweinidog Capel Iwan.

Nodion yr Eglwysi.

GWOBR YN Y GENEDLAETHOL.—Enillodd Mrs. MARY DAVIES, Penlôn, Tregroes y wobr gyntaf am bâr o hosanau yn Eisteddfod Dolgellau. Llongyfarchiadau !

DYRCHAFIAD.—Hysbyswn gyda llawenydd fod Mr. Evan Davies. M.Sc., mab yr Henadur Simon Davies a Mrs. Davies, Greengrove, Felinfach wedi ei ddyrchafu yn Brif Swyddog Amaethyddol dros Faesyfed. Llongyfarchwn ef ar ei ddewis i swydd mor bwysig ac anrhydeddus. Y mae ar hyn o bryd yng ngwasanaeth y Weinyddiaeth Amaethyddol yng Nghaerfyrddin.

LLUNDAIN.—Yr ydym yn ddiolchgar iawn i'r canlynol am wasanaethu yn ein oedfaon yn ddiweddar : Parch. S. E. Bowen, Parch. Noel James, B.A., Parch. E. O. Jenkins a'r Parch. T. L. Jones. Bu'r bobl ifanc am 'drip' i Hastings yn ddiweddar ac fe gawsant fwynhad mawr. Ray Davies wnaeth y trefniadau—diolch iddi. Cafodd rhai ohonom y pleser mawr o wrando ar y Parch. Dr. Preston Bradley, o Chicago yn pregethu i'r Eglwys Saesneg yn Highgate un bore Sul, ac yntau, fel y Parch. S. E. Bowen, ar ei ffordd i Gynhadledd Amsterdam. Y mae'r cyfeillion Mri. Edgar Evans a Ceredig Jones wedi addo canu yn ein cyrddau diolchgarwch ar y Sul cyntaf yn Hydref, a bydd y Parch. T. O. Williams yn cymryd y gwasanaeth. Yr ydym hefyd wedi trefnu cael sosial arall ym mis Hydref. Cydymdeimlwn yn fawr â'r Parch. J. Marles Thomas ar golli ohono ei fam, hefyd ag eglwysi Gellionnen a'r Graig

ar golli eu cadeirydd, Mr. John Hopkin, ac â Choleg Caerfyrddin ar golli'r Athro M. B. Owen, M.A., B.D. Yn ddiweddaf oll gwelwn fod yr Hen Dŷ Cwrdd wedi colli y Parch. E. R. Dennis. Dyma bedwar cristion ffyddlon wedi mynd. A oes eraill yn codi yng Nghymru i lanw'r bylchau. Gobeithiwn fel alltudion fod yna rai yn dod i lanw'r adwy o hyd.

CYWIRO.—Oherwydd na chafwyd darllen proflenni rhifyn Gorffennaf llithrodd nifer o wallau trwy'r wasg, yn arbennig yn erthygl y Parch. D. Eirwyn Morgan ar "Y Bedyddwyr" (1) t. 103, ll. 3, "swrn" nid "swm"; (2) t. 103, ll. 26, "Blaurock" nid "Blanrock"; (3) t. 104, ll. 10, "Delfryd" nid "Ddelfryd"; (4) t. 104, ll. 12, "wrth" nid "wrh"; (5) t. 104, ll. 19, "Bedyddiwr" nid "Bedyddwyr"; (6) t. 104, ll. 35, "Dileu" ar ôl "ysbrydol" ym mhwynt (iii); (7) t. 104, ll. 41, "rhai" yn lle "rhoi"; (8) t. 105, ll. 15, Mathew xxviii. 19 nid M.xxxiii. 19; (9) t. 105, ll. 31, Rhodder "trwy"rhwng "bywiol" ag "atgyfodiad" yn y dyfyniad o 1 Pedr 1; (10) t. 106, ll. t25—26 '?' yn lle " " ? ac yna " i gloi.

HYSBYSIAD.—Y mae'r dogfennau canlynol a oedd gennyf wedi'u gosod yn y Llyfrgell Genedlaethol ar fenthyg yn enw Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru—(1) Prydles (dyddiedig 1832) hen gapel Undodaidd ("Capelygraig"), St. Clêr a (2) Gweithred (1881) yn penodi ymddiriedolwyr ychwanegol ar yr eiddo.—W. S. J. Llandre.

Y DYFODOL.—Ceir adroddiad o waith y Pwyllgor a chrynodeb o araith y Llywydd yn nes ymlaen. Y mae amgylchiadau arbennig yn trefnu cynnwys y rhifyn yma.

Y CYRDDAU BLYNYDDOL.—Cynhaliwyd y Cyrddau Blynyddol ym Mhantydefaid dydd Mawrth a Mercher, Awst 9 a 10. Ymgasglodd tyrfa gref y noson gyntaf i wrando ar y Parch. D. Jacob Davies a'r Parch. J. Marles Thomas yn pregethu. Pregethodd y ddau o'r hen Destament, y cyntaf yn apelio am wrandawiad i lef ddistaw fain heddwch a brawdoliaeth a'r ail yn gofyn am roi'r lle blaenaf i Dduw; na offrymwn iddo'r gweddillion eithr y blaenffrwyth. Cafwyd araith gref gan y Llywydd, y Parch. J. Islan Jones, Cribyn. Deliodd a nifer o broblemau'r oes yng ngolau ein crefydd, a thyst i werth yr araith oedd y nifer dadleuon brwd a glywsom i'w chanlyn, yn enwedig ynglŷn â'r Seicoleg Newydd. Diolchwyd iddo gan y Parch. Lewis Williams a'r Parch. David Evans yn eilio. Hyfrydwch oedd gweld y ddau yma yn edrych mor heini a byw. Troes y tywydd ychydig bach yn anffafriol dydd Iau ond daliodd y cynulliadau'n dda a choronwyd y dydd gyda phregethu'r Prifathro J. D. Jones a'r Parch. T. O. Williams. Y naill yn dangos na allwn guddio "Llediaith Galilea" os ydym yn byw gyda'r Iesu a'r llall yn taro'r hoelen adref—mae cyffwrdd a gwisg yr Iesu'n iachau o hyd. Cofiwyd yn dyner gan bawb am weinidog yr eglwys sy'n sâl ar hyn o bryd.

J. D. Lewis a'i Feibion, Cyf., Argraffwyr, Llandysul